# Cynllunio a rheoli gweithredoedd puro cregynbysgod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio a rheoli'r weithred o buro ar gyfer puro cregynbysgod i bobl eu bwyta. Gellir ei gymhwyso i unrhyw fferm cregynbysgod sydd yn gweithredu uned buro.

Mae'r safon hon yn cynnwys y gallu i gynllunio a rheoli gweithgareddau puro i fodloni gofynion cynhyrchu, a sefydlu gweithdrefnau gweithredol i fonitro a rheoli'r broses.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn cynllunio ac yn rheoli gweithredoedd puro cregynbysgod er mwyn paratoi cregynbysgod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau amgylchedd gwaith iach, diogel a chadarn
2. cynllunio gweithredoedd puro cregynbysgod i fodloni gofynion cynhyrchu
3. cynllunio'r adnoddau sydd yn ofynnol i gefnogi'r gweithredoedd puro cregynbysgod sydd wedi eu cynllunio
4. sicrhau bod gweithredoedd puro sydd wedi eu cynllunio yn bodloni gofynion diogelwch bwyd cyfreithiol perthnasol
5. sicrhau bod y rheiny sydd yn gysylltiedig â gweithredu'r system buro wedi eu hyfforddi'n llawn yn unol â'r gofynion cyfreithiol
6. rheoli gweithredoedd puro i fodloni gofynion cynhyrchu a gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau â'r adnoddau sydd ar gael
7. datblygu gweithdrefnau gweithredol i gynnal amodau amgylcheddol mewn cyfleusterau puro a chyflawni puriad gofynnol cregynbysgod
8. datblygu systemau i fonitro puro yn effeithiol a rhybuddion am amrywiadau posibl neu wirioneddol i'r puriad sydd wedi ei gynllunio
9. datblygu gweithdrefnau gweithredol i ymdrin ag argyfyngau a methiannau system
10. datblygu gweithdrefnau i gynorthwyo'r gwaith o gludo cregynbysgod yn unol â'r gofynion cyfreithiol
11. datblygu gweithdrefnau ar gyfer gwaredu marwolaethau a gwastraff
12. gwerthuso llwyddiant gweithrediadau puro
13. rheoli cofnodion puro cregynbysgod yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelwch bwyd a gweithdrefnau safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer iechyd, diogelwch a diogeledd sydd yn gysylltiedig â phuro cregynbysgod
2.
dosbarthiad **ardaloedd tyfu cregynbysgod** a dŵr y môr a'u gofynion puro cysylltiedig
3. y gofynion diogelwch bwyd cyfreithiol, yn cynnwys hylendid personol, Dadansoddi Peryglon a Mannau Rheoli Hanfodol (HACCP) â'r rheoliadau sydd yn gysylltiedig â chanolfannau cludo ar gyfer cregynbysgod
4. eich cyfrifoldebau eich hun yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol diogelwch bwyd
5. y gofynion safonau cynnyrch terfynol
6. egwyddorion puro fel proses o buro cregynbysgod
7. galluoedd cynhyrchu a nodweddion y systemau puro
8. yr adnoddau sydd yn ofynnol i reoli'r weithred o buro
9. yr amodau amgylcheddol sydd yn ofynnol i gynorthwyo'r puro
10. y gweithgareddau y mae angen eu cwblhau i sefydlu a chynnal cregynbysgod yn unol â'r amodau gofynnol
11. y gofynion cludo cregynbysgod
12. y gofynion cyfreithiol rheoli gwaredu marwolaethau a gwastraff
13. dulliau a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso gweithredoedd puro
14. y cofnodion cyfreithiol sydd yn ofynnol gan ganolfannau puro cregynbysgod (puro)

## Geirfa

**ardaloedd tyfu cregynbysgod** – gellir dod o hyd i'r rhain ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Cynllunio a rheoli gweithredoedd puro cregynbysgod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu32 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | cregynbysgod; puro |